Heriau Cyfnod Sylfaen

1/6/20 - 5/6/20

Blynyddoedd Derbyn, 1 a 2

Ardal Graffeg

Ysgrifennwch gerdyn post ar 'Purple Mash' o ble bynnag hoffech chi fynd ar ol i'r cyfnod o fod adref ddod i ben!

*Ysgrifennu brawddeg Rydw i wedi mynd i.....

**Defnyddio patrwm - Rydw i, Dydw i ddim, Mae gen i, Does gen i ddim a Mae.

*** Defnyddio ffurf presennol y ferf sef Gwelais, Cefais, Bwytais ac ysgrifennu o leiaf 10 brawddeg yn disgrifio eich ymewliad

Her ychwanegol - Creu pamffled gwybodaeth am y lleoliad yn dilyn eich ymweliad dychmygol.

Ardal Perfformio

Tasg 1

Dyma gerdd newydd gan y bardd Tudur Dylan sydd wedi ei hysgrifennu yn arbennig yn ystod y cyfnod gwahanol yma yn ein bywydau. Darllenwch y gerdd yn ofalus yna ewch ati i ei ysgrifennu yn eich llawysgrien gorau un!

Tasg 2

Gwrandewch ar Einir Dafydd yn canu a cheisiwch ymuno â hi. Gwnewch fideo o'r perfformiad.

Enfys yn y Ffenest

Mae enfys yn y ffenest,
pob ffenest yn y stryd
ag enfys fach i ddiolch
i'r gweithwyr gorau i gyd.

Mae enfys yn y ffenest
a'r ffenest eto draw
ac enfys arall wedyn
yn obaith wedi'r glaw.

Llond gwlad o guro dwylo
a chanu'r anthem fach
llond gwlad o aros adref
i gadw pawb yn iach.

Ac er bod sgwrsio'n gysur
gydag eraill dros y we,
mae hiraeth yn fy nghalon
am weld ffrindiau hyd y lle.

A phan gaf unwaith eto
fynd allan i gwrdd â'r criw,
bydd enfys dros y cyfan
a bydd y byd mewn lliw.

Tudur Dylan Jones

https://youtu.be/hmJ_eUugWcA

Her Ychwanegol– Ychwanegwch offeryn o unrhyw fath yn eich perfformiad.

Ardal Rhif

- Rhif yr wythnos ydi 7, cyfrifwch symiau gyda'r rhif. Sawl ffaith fedrwch chi ddarganfod drwy -

  Cyfrif , Adio , Tynnu, Lluosi

Her Ychwanegol - Gwir neu gau.



Gwir neu Gau
True or false

Mae 7 yn rif cysefin.
7 is a prime number.

Mae 7 yn eilrif.
7 is an even number.

7

Dwbl 7 yw 16.
Double 7 is 16.

Mae 100 - 93 yn gwneud 7.
100 - 93 makes 7.

Mae 14, 21 a 28 yn luosrifau o 7.
14, 21, 28 are multiples of 7.

Enfys yn y Ffenest

Mae enfys yn y ffenest,
pob ffenest yn y stryd
ag enfys fach i ddiolch
i'r gweithwyr gorau i gyd.

Mae enfys yn y ffenest
a'r ffenest eto draw
ac enfys arall wedyn
yn obaith wedi'r glaw.

Llond gwlad o guro dwylo
a chanu'r anthem fach
llond gwlad o aros adref
i gadw pawb yn iach.

Ac er bod sgwrsio'n gysur
gydag eraill dros y we,
mae hiraeth yn fy nghalon
am weld ffrindiau hyd y lle.

A phan gaf unwaith eto
fynd allan i gwrdd â'r criw,
bydd enfys dros y cyfan
a bydd y byd mewn lliw.

Tudur Dylan Jones